

Trosolwg

TA5 1UD, NNB Generation Company (HPC) Limited: ymgynghoriad hawlen amgylcheddol

Rydym yn ceisio eich sylwadau ar gais am hawlen amgylcheddol a dderbyniwyd gan NNB Generation Company (HPC) Limited ar gyfer

Gorsaf Pŵer Hinkley Point C
Hinkley Point
Ger Bridgwater
Gwlad yr Haf
TA5 1UD

Gallwn ystyried

- Gofynion rheoleiddio amgylcheddol a safonau technegol perthnasol.
- Gwybodaeth ar boblogaeth leol a safleoedd sensitif.
- Caniatáu amodau trwy ddarparu gwybodaeth nad ydym wedi cael gwybod amdani yn y cais, neu trwy gywiro gwybodaeth anghywir yn y cais (e.e. monitro a thechnegau i reoli llygredd).
- Y broses wedi'i diffinio'n gyfreithiol yr ydym yn ei dilyn i bennu hawlen.

Ni allwn ystyried

- Materion y tu hwnt i'r rheoliadau amgylcheddol perthnasol hynny.
- A ddylai fod gan safle ddynodiad ffurfiol o dan Gyfarwyddeb Cynefinoedd neu ddeddfwriaeth gadwraeth arall.
- A ddylid caniatáu'r gweithgaredd ai peidio fel mater o egwyddor.
- Materion defnydd tir wrth bennu cais am hawlen, hyd yn oed pe bai newid lleoliad y gweithgaredd yn gwella'i berfformiad amgylcheddol.
- Effaith sŵn ac arogl wrth draffig ar y safle neu'n teithio yn ôl ac ymlaen o'r safle.
- Unrhyw beth y tu hwnt i gylch gwaith Rheoliadau Caniatáu Amgylcheddol (EPR), e.e. lleoliad arfaethedig y safle, a wneir trwy gynllunio defnydd tir ac yn yr achos hwn trwy broses Gorchymyn Caniatâd Datblygu'r Gyfarwyddiaeth.
- Caniatáu hawlen/amrywiad os yw'r gweithredwr yn gallu dangos ei fod yn gallu ymgymryd â'r gweithgaredd heb risg sylweddol i'r amgylchedd neu iechyd dynol.

Ynglŷn â'r ymgynghoriad hwn

TA5 1UD, NNB Generation Company (HPC) Limited: ymgynghoriad ar hawlen amgylcheddol

Nod yr ymgynghoriad hwn yw gofyn a oes gennych unrhyw sylwadau sy'n berthnasol i'r cais hwn am hawlen.

Rydym eisiau gwneud y penderfyniad gorau wrth ganiatáu. Mae gwranddo ar farnau eraill yn ein helpu ni i ystyried pryderon, neu ffactorau amgylcheddol lleol, na fyddem fel arall yn ymwybodol ohonynt.

Derbyniwyd cais gennym i amrywio hawlen gan NNB Generation Company (HPC) Limited. Rydym yn ceisio sylwadau ar y cais hwn. Defnyddiwch y cyfeirnod isod wrth wneud sylwadau.

- Rhif hawlen: EPR/HP3228XT/V004
- Math o gyfleuster a reoleiddir: Gweithgaredd Arllwys Dŵr
- Lleoliad cyfleuster a reoleiddir: Gorsaf Bŵer Hinkley Point C, Hinkley Point, Ger Bridgwater, Gwlad yr Haf, TA5 1UD
- Amgylchedd derbyn: Sianel Bryste
- Math o elifiant: Elifiant masnach (yn cynnwys dŵr oeri ac elifion proses) ac elifion carthion wedi'u trin
- Cyfaint: Cyfradd gyfartalog uchaf yr arllwys o 132 metr ciwbig yr eiliad

Mae'r cwmni bellach eisiau amrywio'r hawlen gyfredol hon i ddiwygio neu ddileu'r amodau yn ymwneud â chynllun a gweithrediad y system Atal Pysgod Acwstig (AFD). Cynigiwyd hyn yn y lle cyntaf fel rhan o system mewnlif morol yr orsaf h.y. pibellau a ddefnyddiwyd i echdynnu dŵr oeri o Aber Afon Hafren.

Caniatawyd yr hawlen wreiddiol gan Asiantaeth yr Amgylchedd yn 2013 ac roedd yn cynnwys arllwys elifiant masnach, yn cynnwys dŵr oeri, yn ôl i Aber Afon Hafren. Roedd y cynllun gwreiddiol yn gofyn i'r cwmni echdynnu ac arllwys y dŵr oeri hwn gan ddefnyddio tri mesur, a fyddai'n cydweithio i ostwng effaith amgylcheddol y gweithgaredd hwn. Y mesurau oedd wedi'u cynnwys yn yr hawlen wreiddiol oedd mewnlif Mynediad Ochr Cyflymder Isel (LVSE), system Adfer a Dychwelyd Pysgod (FRR) a system Atal Pysgod Acwstig (AFD).

Bydd y nodyn briff hwn yn dweud mwy wrthy ch chi am y newidiadau y dymuna'r cwmni ei wneud i'w hawlen, sut y gallwch chi ddysgu mwy a sut y gallwch chi anfon eich sylwadau atom ni.

Beth y mae'r gweithredwr eisiau ei wneud?

Nid yw'r Cwmni yn dymuno mwyach gosod system Atal Pysgod Acwstig (AFD) i'w bibellau mewnlif morol a chan hynny mae'n ymgeisio i amrywio ei hawlen gyfredol i ddileu'r amodau yn ymwneud â'r mesur hwn.

Beth mae hyn yn ei olygu i'r safle?

Mae'r cwmni wedi cyflwyno nifer o adroddiadau ochr yn ochr â'r cais hwn. Rhaid i ni ystyried pob un yn llawn ac yn annibynnol cyn y gallwn wneud unrhyw benderfyniad ar p'un a yw cynigion y cwmni yn dderbyniol ai peidio. Ymhlith yr adroddiadau sydd wedi'u cyflwyno gan y cwmni y mae:

customer service line
03708 506 506

incident hotline
0800 80 70 60

floodline
0345 988 1188

- Adroddiad cyfiawnhad, sy'n cyfiawnhau'r cynllun arfaethedig ar gyfer yr echdynnu a'r mesurau diogelu pysgod cysylltiedig.
- Adroddiad Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA), sy'n ystyried a fydd y trefniadau diwygiedig arfaethedig ar gyfer echdynnu dŵr y môr yn effeithio er gwaeth ar gyfanrwydd safleoedd dynodedig Ewropeaidd neu safleoedd Ramsar, naill ai ar eu pennau eu hunain neu o'u cyfuno gyda chaniatâd, cynlluniau neu brosiectau perthnasol eraill.
- Asesiad Cydymffurfriad Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr, sy'n ystyried a fydd y trefniadau diwygiedig arfaethedig yn effeithio er gwaeth ar gydymffurfriad gyda'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr, gan gynnwys unrhyw effaith ar niferoedd y pysgod a mudo yn Afon Parrett.
- Asesiad Rheoliadau Llysywod.
- Asesiad Gwrthdrawiad, yn edrych ar nifer y pysgod a allai gael eu dal o fewn system oeri dŵr yr orsaf bŵer a'r effeithiau ar gymuned bysgod Sianel Bryste.
- Adroddiad Peirianeg, sy'n crynhoi prosesau penderfynu'r cwmni ar gyfer dethol, cynllunio ac optimeiddio cydrannau ei system dŵr oeri.
- Adroddiad Diogelwch, sy'n crynhoi astudiaethau iechyd a diogelwch a dadansoddiad risg.

Pam ein bod ni'n ymgynghori?

Rydym yn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus gan fod Hinkley Point C yn brosiect seilwaith o bwys, yn bwysig yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol. Deallwn y gallai newidiadau i'r safle fod o ddiddordeb sylweddol i'r cyhoedd. Gwnawn benderfyniadau ar sail tystiolaeth ac wrth gynnwys rhanddeiliaid, ymgynghoreion a'r cyhoedd er mwyn gwella tryloywder ein penderfyniadau.

Croesawn adborth gan bawb sydd â barn ar y cais, waeth beth yw eu hoed, rhyw, anabledd, statws priodasol a phartneriaeth sifil, statws beichiogrwydd neu famolaeth, hil, crefydd neu gred neu gyfeiriadedd rhywiol.

Ar beth ydym ni'n ymgynghori?

Oherwydd natur strategol y safle a'r ffaith y bydd dŵr oeri yn cael ei echdynnu o ddyfroedd morol h.y. islaw'r marc llanw isel, mae gan y cwmni dri chaniatâd yn barod a bydd angen iddo amrywio pob un o'r rhain er mwyn gwneud y newidiadau arfaethedig. **Gofynnwn am eich sylwadau ar y newidiadau y gofynnir amdanynt i'r hawlen amgylcheddol yn unig.**

Bydd y cwmni hefyd yn gwneud cais i:

- Y Gyfarwyddiaeth Gynllunio (PINs), er mwyn amrywio'i Orchymyn Caniatâd Datblygu (h.y. cytundeb cynllunio, DCO 2013: S.I. 2013:248) a
- Y Sefydliad Rheoli Morol (MMO), er mwyn amrywio ei drwydded forol (rhif L201300178/3).

Bydd PINs, MMO a'r cwmni yn cynnal ac yn hyrwyddo ymgynghoriadau cyhoeddus ar wahân ar yr agweddau uchod, sy'n debyg o ddigwydd ar yr un pryd â'n hymgynghoriad ar y cais i amrywio'r hawlen amgylcheddol. Gallwch ddarllen mwy am ymgynghoriad cyn-ymgeisio'r cwmni ar y Gorchymyn Caniatâd Datblygu (DCO) yn www.edfenergy.com/AFDconsultation

Sut allwch chi gael rhagor o wybodaeth am y cais?

Mae'r cwmni wedi cyflwyno nifer fawr o ddogfennau ac adroddiadau ategol. Gallwch weld y rhain i gyd ar-lein trwy'r porth ymgynghori hwn.

Fel arall, gallwch weld copïau caled o'r holl wybodaeth ategol yn ymwneud a'r cais hwn am amrywiad i hawlen yn unrhyw un o'r lleoliadau a ganlyn:

customer service line
03708 506 506

incident hotline
0800 80 70 60

floodline
0345 988 1188

- Hinkley Point Visitor Centre (EDF Energy), Units 18-19 Angel Place Shopping Centre, 25 Angel Crescent, Bridgwater, TA6 3TQ.
- Public Register, Environment Agency, Rivers House, East Quay, Bridgwater, TA6 4YS.
- Public Register, Environment Agency, Horizon House, Deanery Road, Bristol, BS1 5AH.
- Customer Services Reception, West Somerset Council, West Somerset House, Killick Way, Williton, TA4 4QA.
- Hyb y Llyfrgell Ganolog, Llyfrgell Ganol Caerdydd, Yr Aes, Caerdydd, CF10 1FL.

Gallwch ddod i edrych ar ein cofrestr rhwng 9.30am a 4.30pm, dydd Llun i ddydd Gwener. Ffoniwch y Ganolfan Cyswllt i Gwsmeriaid Cenedlaethol ar 03708 506 506 i drefnu apwyntiad. Gallwch dderbyn copi o'r dogfennau sydd ar y gofrestr. Efallai y byddwn yn codi tâl i dalu am gostau copïo.

Sut y gallaf i gael gwybodaeth bellach?

Cyfeiriwch unrhyw gwestiynau am y cais am hawlen hwn at psc-waterquality@environment-agency.gov.uk

Am wybodaeth gyffredinol am ein proses ganiatáu gweler www.gov.uk/topic/environmental-management/environmental-permits

Am wybodaeth bellach am ein rôl wrth reoleiddio Hinkley Point gweler <https://www.gov.uk/government/collections/hinkley-point>

Sut y bydd yr ymateb yn cael ei ddefnyddio:

Byddwn yn ystyried eich ymatebion i'r ymgynghoriad fel rhan o'n penderfyniad ar yr hawlen. Os byddwn ni'n penderfynu caniatáu'r hawlen, byddwn yn esbonio sut y gwnaethom ein penderfyniad a sut yr ydym wedi mynd i'r afael â'r pryderon a godwyd.

Ni fyddwn yn cyhoeddi hawlen oni bai ein bod ni'n credu y bydd niwed i'r amgylchedd, pobl a bywyd gwyllt yn cael ei isafu a bod gan y gweithredwr y gallu i fodloni amodau'r hawlen. Cyhyd â bod busnes yn gallu profi bod y gweithgareddau arfaethedig yn bodloni'r holl ofynion cyfreithiol, gan gynnwys gofynion amgylcheddol, technegol ac iechyd, yna rydym yn rhwym yn gyfreithiol i gyhoeddi hawlen, hyd yn oed os nad yw rhai pobl yn cymeradwyo'r penderfyniad.

Sut i ymateb:

Os dymunwch gynnig sylwadau ar-lein, defnyddiwch yr offeryn ymgynghori ar-lein yng Ngofod y Bobl.

Os hoffech chi anfon eich ymateb trwy'r post, anfonwch at:

Environment Agency
Permitting and Support Centre
Water Quality Team
Quadrant 2
99 Parkway Avenue
Sheffield
S9 4WF.

Ond os byddai'n well gennych gyflwyno'ch ymateb trwy e-bost, neu os hoffech chi ofyn i fersiwn print o'r ddogfen gael ei phostio atoch chi, cysylltwch â'r Ganolfan Ganiatáu a Chefnogaeth ar 03708 506 506, neu e-bost psc-waterquality@environment-agency.gov.uk

Rhaid cyflwyno'r holl sylwadau erbyn 04 Mehefin 2019.

customer service line
03708 506 506

incident hotline
0800 80 70 60

floodline
0345 988 1188

Sut y byddwn yn defnyddio eich gwybodaeth:

Byddwn yn anelu at gyhoeddi'r sylwadau a dderbyniwyd yn ein swyddfa gyhoeddus Asiantaeth yr Amgylchedd.

Ni fydd unrhyw sylwadau a gyhoeddir yn cynnwys cyfeiriadau e-bost a rhifau ffôn. Ni fydd unrhyw sylwadau lle y mae cyfrinachedd wedi'i hawlio yn ymddangos ar y gofrestr gyhoeddus.

Yn unol â Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, mae'n bosibl y bydd gofyn inni gyhoeddi eich ymateb i'r ymgynghoriad hwn, ond ni fyddwn yn cynnwys unrhyw wybodaeth bersonol. Os ydych chi wedi gofyn i'ch ymateb gael ei gadw'n gyfrinachol, mae'n bosibl y bydd gofyn i ni gyflwyno crynodeb ohono.

Egwyddorion yr Ymgynghoriad:

Rydym yn cynnal yr ymgynghoriad hwn yn unol â'r meini prawf a amlinellir yn [Egwyddorion Ymgynghori](#) y llywodraeth.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau neu gwynion am y ffordd y cynhaliwyd yr ymgynghoriad hwn, cysylltwch ag:

Environment Agency
Permitting and Support Centre
Water Quality Team
Quadrant 2
99 Parkway Avenue
Sheffield
S9 4WF.

E-bost: psc-waterquality@environment-agency.gov.uk

customer service line
03708 506 506

incident hotline
0800 80 70 60

floodline
0345 988 1188